Safonau Gwasanaeth – Gwaith y gellir codi tâl amdano

Datganiad cenhadaeth Tai Ceredigion

"Bod yn landlord ac yn gyflogwr dwyieithog o'r radd flaenaf sy'n rhoi tenantiaid yn gyntaf, sy'n darparu cartrefi o safon ac sydd o fudd i gymunedau a'r economi leol."

Safon

Bydd Tai Ceredigion yn codi tâl ar denantiaid neu gyn-denantiaid os oes difrod bwriadol neu esgeulustod wedi'u hachosi gan y tenant, rhywun sy'n byw yn ei gartref, ymwelydd â'i gartref neu anifail anwes.
Mae'r costau yn seiliedig ar gost wirioneddol y gwaith (a byddant yn cynnwys costau teithio). Codir lleiafswm o £100 ynghyd â ffi weinyddu o 15% a TAW).

Dyma enghreifftiau o achosion lle byddai Tai Ceredigion yn codi tâl ar denant:

- paenau gwydr wedi torri
- larymau mwg wedi'u difrodi
- ffitiadau trydan wedi'u difrodi
- unedau cegin neu wynebau gweithio wedi torri neu gracio
- allweddi wedi'u colli neu angen ffob newydd yn lle hen un
- drysau mewnol wedi'u difrodi neu'u tynnu i ffwrdd
- drysau allanol wedi'u difrodi wrth i rywun ddefnyddio grym i ddod i mewn i'r eiddo (oni cheir Cyfeirnod Trosedd)
- achos lle gofynnir am ymweliad ymatebol brys a lle nad oes modd i'r contractwr fynd i mewn i'r eiddo pan fydd yn galw
- gerddi wedi tyfu'n wyllt
- sbwriel ac eitemau personol wedi'u gadael yn yr eiddo
- apwyntiadau heb eu cadw (cyfanswm o 3)
- gwaith ailgomisiynu boeleri olew oherwydd bod yr olew wedi gorffen yn y tanc olew.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ond mae'n rhoi syniad o'r sefyllfaoedd lle codir tâl ar denant am waith a wneir.

Mae'n bwysig bod pob tenant yn cymryd cyfrifoldeb am ofalu am eu cartrefi, a'u bod yn sicrhau nad ydynt yn wynebu taliadau ychwanegol tra byddant yn byw yno neu pan fyddant yn symud allan.

Os nad ydych yn siŵr a allai'r taliadau hyn fod yn berthnasol i chi, gallwch gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau i Gwsmeriaid a fydd yn gallu egluro pwy sy'n gyfrifol am beth.

Os ydych yn gwybod bod difrod wedi'i achosi i'ch eiddo ac mai chi sy'n gyfrifol am ei atgyweirio, neu os oes angen help arnoch i dacluso eich gardd, cysylltwch â gwasanaethau Medra a fydd yn gallu rhoi amcan bris ar gyfer unrhyw waith y mae angen ei wneud.

Mae copi o'n Polisi ynghylch Gwaith y Gellir Codi Tâl Amdano ar gael o ofyn amdano, trwy ffonio 0345 606 7654 neu e-bostio post@taiceredigion.cymru

Caiff y Safonau hyn eu hadolygu'n rheolaidd, o leiaf bob tair blynedd

Cymeradwywyd gan y Tenantiaid

Adolygwd 160418